**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2018**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIADAU | Datganodd y Cynghorwyr Meirick Davies ac Emrys Wynne gysylltiad personol yn Eitem Rhaglen Rhif 9. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2018 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | GWELEDIGAETH A STRATEGAETH DWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: TREFNIADAU LLYWODRAETHU | ***PENDERFYNWYD*** *bod* ***-***<br><br>*(a) cynnydd ar ddatblygiad Cynnig y Fargen Twf i'w nodi a'i groesawu;.*<br><br>*(b) bod y Cabinet yn cymeradwyo Cytundeb Llywodraethu'r cam cyntaf yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor o'r trefniadau anweithredol h.y. y trefniadau ar gyfer Craffu;*<br><br>*(c) cyflwyno drafft terfynol y Cynnig Bargen Twf i'r Cyngor ei adolygu a'i ganiatáu ym mis Medi/Hydref, cyn cam cyrraedd Penawdau Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth.*<br><br>*(d) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus a Phennaeth Cyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i gwblhau telerau'r Cytundeb Llywodraethu'n sylweddol yn unol â'r drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn, a*<br><br>*(e) bod y Cabinet yn cymeradwyo'r trefniadau gweithredol sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Llywodraethu a bod y Cyngor yn cymeradwyo eu cynnwys yn y Cyfansoddiad ynghyd â'r trefniadau anweithredol yn ymwneud â Chraffu.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2018**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **6** | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 4 – 2017-18 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd yn narpariaeth y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd chwarter 4 2017/18.* |
| **7** | SEFYDLU SYSTEM BRYNU DDEINAMIG AR GYFER GWASANAETHAU CLUDO TEITHWYR | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) cymeradwyo dechrau'r caffaeliad i sefydlu DPS ar gyfer cludiant i ddysgwyr a gwasanaethau bysiau lleol;*<br><br>*(b) awdurdodi Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd i benodi darparwyr i'r DPS yn ystod ei fodolaeth, o dan yr amod bod y darparwr yn bodloni'r meini prawf cymhwyso ar gyfer penodiad i'r DPS; a thynnu darparwyr na ddymuna gael eu cofrestru ar y DPS bellach, neu sydd ddim yn gymwys i fod yn rhan o'r DPS;*<br><br>*(c) awdurdodi Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd i gynnal cystadlaethau bychain o dan y DPS yn ystod ei fodolaeth a gwobrwyo cytundebau yn ôl y gofyn, a*<br><br>*(d) cadarnhau y gall trefniadau gael eu hymestyn i gludiant gofal cymdeithasol oedolion.* |
| **8** | SEFYDLU FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW TAI GWAG | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dechrau'r caffaeliad i osod fframwaith a penodi contractwyr i'r cyfrannau amrywiol.* |
| **9** | ADRODDIAD ARIANNOL (SEFYLLFA ARIANNOL DERFYNOL 2017/18) | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2017/18;*<br><br>*(b) cymeradwyo y driniaeth arfaethedig i gronfeydd wrth gefn a balansau fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad a manylwyd yn Atodiadau 1, 2 a 3, a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(c) nodi manylion y trosglwyddiadau i ac o Gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd fel y manylir yn Atodiad 4.* |
| **10** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni.* |
| **11** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **12** | DYRANNU CONTRACT GWASANAETHAU YSWIRIANT | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) gwobrwyo'r cytundeb i'r darparwyr yswiriant a enwir ar gyfer Cyfrannau 1-6 fel y manylir o fewn yr adroddiad ar gytundeb 3 mlynedd gyda'r opsiwn i'r Cyngor ymestyn am ddwy flynedd arall ac opsiwn arall i'r Cyngor ymestyn am ddwy flynedd wedi hynny, yn ddibynnol ar amodau'r farchnad (yn unol â'r adroddiad Argymell Gwobrwyo Cytundeb sydd ynghlwm ag atodiad Un yr adroddiad), ac*<br><br>*(b) awdurdodi Pennaeth Cyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd i gytuno ar y math priodol o gytundeb gyda phob yswiriwr er mwyn penodi'r yswiriwr fel darparwr yswiriant y Cyngor.* |